



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 344A2018-19



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Sara Utley, Matthew Coe a Dave Thomas.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	8
Adran 1: archwiliad o gyfrifon	9
Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ac adroddiad ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen dwyn sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio atynt o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol	9
Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau	10
Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros gylch tair blynedd, ond mae arbedion anghylchol yn cynyddu ac, er bod y dull o gynllunio arbedion yn effeithiol, mae lle i ddatblygu mwy o gynlluniau trawsnewidiol a gwella trefniadau rheoli prosiectau a dadansoddi	11
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddangos trefniadau cynllunio a llywodraethu strategol effeithiol. Fodd bynnag, mae lle i fireinio trefniadau adrodd ar gynlluniau tymor canolig integredig ymhellach a chefnogi aelodau annibynnol newydd	13
Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai meysydd o gynnydd da, ond mae cyfleoedd o hyd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd	16
Atodiadau	
Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf	23
Atodiad 2 – ffi archwilio	24
Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol	25

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2017. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
- 2 Canolbwyntiodd fy ngwaith archwilio ar flaenoriaethau strategol a'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r adroddiadau ar wahân a baratowyd gennyf yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhagor o fanylion ar yr agweddau penodol ar fy ngwaith archwilio. Awn ati i drafod yr adroddiadau hyn a chytuno ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau hyn i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
- 3 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a rannwyd yn electronig ag aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac a gaiff ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf ar 16 Ebrill 2018. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 29 Mawrth 2018 a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar [wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#).
- 4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Adran 1: archwiliad o gyfrifon

- 5 Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamed ac adroddiad ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen dwyn sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio atynt o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon.
- 6 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17, yn diwallu'i ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Ceir rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn [Adran 2](#) o'r adroddiad hwn.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 7 Archwiliais drefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i gynnydd o ran y materion gwella a nodwyd yn Aseiad Strwythuredig y llynedd. Gwneuthum hyn er mwyn bodloni fy hun bod y Bwrdd

lechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiadau Archwilio Perfformiad ar feysydd darparu gwasanaethau penodol, gan gynnwys gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, gwasanaethau radioleg ac adolygiad o apwyntiadau dilynol i gleifion allanol. Nodir fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros gylch tair blynedd, ond mae arbedion anghylchol yn cynyddu ac er bod y dull o gynllunio arbedion yn effeithiol, mae lle i ddatblygu mwy o gynlluniau trawsnewidiol a gwella trefniadau rheoli prosiect a dadansoddi data

- 8 Nododd fy adolygiad o drefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd y canlynol:
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17 ac mae hefyd yn rhagweld y bydd y gyllideb wedi'i mantoli ar ddiwedd y cyfnod a ddaw i ben yn 2017-18;
 - cyflawnodd y Bwrdd Iechyd 96% o'r targed arbedion cyffredinol, ond roedd amrywiad sylweddol ym mherfformiad y cyfarwyddiaethau;
 - mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer nodi arbedion, wedi'u llywio gan ddadansoddiad da o'r cyfleoedd sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o arbedion yn rhai byrdymor a bydd angen mwy o brosiectau trawsnewid er mwyn cyflawni'r arbedion cylchol sydd eu hangen;
 - caiff arbedion eu monitro a'u hadrodd ar bob lefel o'r sefydliad ac mae trefniadau craffu da ar lefel Bwrdd a phwyllgor; a
 - gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol ar drefniadau cynllunio a rheoli ariannol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddangos trefniadau cynllunio a llywodraethu strategol effeithiol. Fodd bynnag, mae lle i fireinio trefniadau adrodd ar gynlluniau tymor canolig integredig ymhellach, cefnogi aelodau annibynnol newydd a gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth

- 9 Nododd fy adolygiad o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio strategol, effeithiolrwydd y bwrdd, rheoli risg, llywodraethu gwybodaeth a rheoli perfformiad y canlynol:
- cafodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru eto ar gyfer ei IMTP, yn unol â'r gofynion statudol yn Neddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, ac mae ganddo ddull cynllunio strategol cadarn a sefydledig;
 - mae gwaith ar y strwythur sefydliadol wedi bod yn gadarnhaol, ond dylid nodi bod swydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn dal i gael ei llenwi ar sail dros dro ar adeg ein hadolygiad;

- roedd systemau gweinyddol ac ymddygiad y bwrdd yn dal yn effeithiol, gyda rhai cyfleoedd i wneud mwy o waith mewn perthynas â'r pwyllgor ansawdd, diogelwch a risg;
- roedd dull aeddfed o reoli risg ar waith;
- mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn parhau i fod yn gadarn, gyda rhywfaint o waith i'w wneud ynghylch hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ei fframwaith rheoli perfformiad newydd, ac roedd ganddo drefniadau monitro perfformiad da ar waith.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi meysydd o gynnydd da, ond mae cyfleoedd o hyd i wneud defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd

10 Adolygodd fy ngwaith Asesiad Strwythuredig nifer o ffactorau allweddol sy'n galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, yn enwedig trefniadau ar gyfer rheoli newid, cynllunio'r gweithlu, a TGCh a thechnoleg. Ar ben hynny, mae fy staff wedi gwneud gwaith ar wasanaethau radioleg, gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau a hefyd adolygiad o'r broses o weithredu argymhellion o'm gwaith blaenorol ar apwyntiadau dilynol i gleifion allanol. Yn ystod 2017, gwneuthum waith hefyd ledled Cymru a oedd yn archwilio trefniadau comisiynu ambiwlansys brys a'r trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol. Mae fy nghasgliadau fel a ganlyn:

- yn gyffredinol, mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli newid da ar waith, ond mae lle i wella eu gwelededd o hyd;
- mae pwysau o ran y gweithlu yn parhau i fod yn her i'r Bwrdd Iechyd, gyda gwariant cymharol uchel ar staff asiantaeth meddygol. Fodd bynnag, mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn drwy ffrydiau gwaith trawsbynciol, yn ogystal â threfniadau'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ddatblygu ei allu ym maes arweinyddiaeth.
- mae gwaith cadarnhaol wedi'i wneud i ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Ddigidol, y mae angen nodi adnoddau ar ei chyfer nawr a'i throsi'n amcanion allweddol i'w cyflawni.
- mae'r gwasanaeth radioleg yn y Bwrdd Iechyd yn cael ei reoli'n dda ac mae ganddo ffocws strategol, ond mae risgiau o ran bodloni'r galw yn y dyfodol oherwydd problemau recriwtio, ac nid yw targedau amseroedd aros yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd.
- mae'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau wedi'i sefydlogi, ond mae gwaith i'w wneud o hyd i wella cywirdeb data, yn ogystal â chynyddu gallu rheoli gweithredol a gwella perfformiad yn erbyn rhai targedau.
- yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ein hargymhellion, ond nododd ein hadolygiad o apwyntiadau dilynol i gleifion

allanol nad ymdriniwyd â'r holl argymhellion yn llawn fel y nodwyd yn yr adroddiad olrhain archwilio.

- mae trefniadau comisiynu ar y cyd wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru; fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid er mwyn datblygu'r trefniadau hyn.
- nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.

11 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Yr adroddiad hwn

- 12 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn ar gyfer 2017 i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Tachwedd 2017.
- 13 Rwy'n ymgymryd â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004¹. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
 - bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
- 14 Mewn perthynas â (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- 15 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn **Atodiad 1**.
- 16 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- Adran 1:** archwiliad o gyfrifon
 - Adran 2:** trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau
- 17 Rhydd **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.
- 18 Yn olaf, mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2017 a sut yr aed i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Adran 1: archwiliad o gyfrifon

- 19 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
- 20 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
 - a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.
- 21 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ac adroddiad ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen dwyn sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio atynt o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

- 22 Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu llunio i'w harchwilio erbyn y terfyn amser cytûn sef 28 Ebrill 2017 ac unwaith eto roeddent o safon dda. Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau sicrhau ansawdd o ran y datganiadau ariannol a cheir lefel uchel o waith craffu gan y Pwyllgor Archwilio. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiudedd, yn deg ac yn glir.
- 23 Yn 2014-15 a 2015-16, nodwyd ein bod wedi wynebu peth anhawster wrth gael ymatebion a phapurau gwaith er mwyn ategu'r ffigurau yn y cyfrifon mewn modd amserol. O ganlyniad, mae rheolwyr wedi gwneud newidiadau i strwythur y swyddogaeth gyllid. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â rheolwyr

ermwyn gwella papurau gwaith ategol, a'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon. Yn gyffredinol, cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Mae rhai meysydd o hyd lle mae'r papurau gwaith ategol yn dal i fod yn gymhleth ac yn anodd i'w deall a byddwn yn parhau i weithio gyda'r rheolwyr er mwyn nodi rhagor o welliannau ar gyfer 2017-18.

- 24 Mae'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon a'r rhannau perthnasol o'r Adroddiad Blynyddol yn parhau i fod yn heriol a hoffem ganmol y tîm Cyllid a'r Bwrdd Iechyd ehangach am amseriad ac ansawdd eu gwaith. Mae'r cydberthnasau gwaith adeiladol ag Ysgrifennydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r tîm cyllid cyfan wedi parhau unwaith eto eleni, a hoffem ddiolch iddynt am hynny.
- 25 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 31 Mai 2017 nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen dwyn sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio atynt o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol.
- 26 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gcontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2017, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- 27 Mae fy adolygiad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusenol y Bwrdd Iechyd wedi'i gwblhau ac ni chododd unrhyw faterion yn sgil yr adolygiad hwnnw yr oedd angen tynnu sylw'r Ymddiriedolwyr atynt.

Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd

- 28 Adolygais reolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamdatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 29 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau cynllunio a chyflawni arbedion ariannol y Bwrdd Iechyd a'u cyfraniad at fantoli'r gyllideb;
 - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni argymhellion yr asesiad strwythuredig a wnaed y llynedd;
 - asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol;
 - gwaith penodol ar y defnydd o adnoddau ar wasanaethau radioleg a gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau; ac
 - asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan waith archwilio blaenorol ar reoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain hynt argymhellion archwilio allanol.
- 30 Rwyf hefyd wedi ymgymryd â gwaith archwilio perfformiad sydd wedi archwilio trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, a'r trefniadau cydweithio rhwng timau iechyd cyhoeddus lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 31 Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith y cyfeirir ato uchod o dan y penawdau canlynol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros gylich tair blynedd, ond mae arbedion anghylchol yn cynyddu ac er bod y dull o gynllunio arbedion yn effeithiol, mae lle i ddatblygu mwy o gynlluniau trawsnewidiol a gwella trefniadau rheoli prosiect a dadansoddi data

- 32 Yn ogystal â rhoi sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, mae fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig yn 2017 wedi ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Rwyf hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ynghylch rheolaeth ariannol. Crynhoir fy nghanfyddiadau isod.

Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17. Fodd bynnag, mae perfformiad yn erbyn targedau arbedion yn amrywio'n sylweddol mewn cyfarwyddiaethau ac mae cyfran yr arbedion anghylchol wedi cynyddu

33 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod treigl o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17 ac mae hefyd yn rhagweld y bydd y gyllideb wedi'i mantoli ar ddiwedd y cyfnod a ddaw i ben yn 2017-18. Yn 2016-17, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd 96% o'r targed arbedion cyffredinol, ond roedd amrywiad sylweddol ym mherfformiad y cyfarwyddiaethau yn erbyn eu targedau arbedion dirprwyedig unigol ac ni lwyddodd y rhan fwyaf o'r cyfarwyddiaethau i gyflawni eu targedau. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfran yr arbedion cylchol a gyflawnwyd wedi gostwng ac, o ganlyniad, mae lefelau arbedion anghylchol wedi cynyddu.

Mae gan y Bwrdd Iechyd system effeithiol ar gyfer nodi arbedion sy'n defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael ac sy'n gysylltiedig â chylch cynllunio IMTP. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni arbedion cylchol, cynaliadwy, mae angen cynlluniau trawsnewidiol mwy hirdymor

34 Mae gan y Bwrdd Iechyd system effeithiol ar gyfer nodi arbedion, wedi'i llywio gan ddadansoddiad da o'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae gan bob cyfarwyddiaeth ei tharged arbedion ei hun wedi'i nodi drwy ymarferion meincnodi a dadansoddiadau perthnasol eraill. Ar ben hynny, ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, mae gwaith cynllunio arbedion wedi'i gysylltu'n benodol â chylch cynllunio IMTP. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r arbedion yn rhai byrdymor ac er bod gan y Bwrdd Iechyd rai prosiectau trawsnewid gwasanaethau, bydd angen datblygu mwy er mwyn cyflawni'r arbedion cylchol sydd eu hangen a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn gynaliadwy.

35 Mae gan y Bwrdd Iechyd ffactorau galluogi a systemau cymorth ar waith i gefnogi trefniadau cynllunio a chyflawni cynlluniau arbedion, ond mae lle i atgyfnerthu'r trefniadau hyn ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â chymorth rheoli rhaglenni a phrosiectau, a gallu a sgiliau dadansoddi data.

Mae trefniadau craffu da ar waith ar lefel Bwrdd a Phwyllgor o ran cyflawni arbedion ac mae'r Bwrdd Iechyd yn atgyfnerthu trefniadau monitro ar lefel weithredol a chyfarwyddiaeth

36 Nodais fod arbedion yn cael eu monitro a'u hadrodd ar bob lefel o'r sefydliad o'r Bwrdd i dimau cyfarwyddiaeth unigol. Mae trefniadau craffu da ar waith ar lefel Bwrdd a Phwyllgor o ran perfformiad arbedion, ac mae trefniadau monitro a chraffu ar lefel weithredol a chyfarwyddiaeth wedi'u hatgyfnerthu drwy gyflwyno mesurau uwchgyfeirio newydd a Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth ar lefel weithredol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion rheoli ariannol, ac mae'n parhau i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol

37 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym yn 2016. Mae wedi atgyfnerthu ei drefniadau monitro ac uwchgyfeirio mewn perthynas â chynlluniau arbedion ym mhob cyfarwyddiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth er mwyn monitro cyfarwyddiaethau lle nad yw targedau arbedion yn cael eu cyflawni. Gellid gwneud rhagor o waith i gytuno ar ddull gweithredu cyson ar gyfer cylch gorchwyl cyfarfodydd busnes clinigol fel yr argymhellwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddangos trefniadau cynllunio a llywodraethu strategol effeithiol. Fodd bynnag, mae lle i fireinio trefniadau adrodd ar gynlluniau tymor canolig integredig ymhellach a chefnogi aelodau annibynnol newydd

38 Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig wedi asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni argymhellion asesiadau strwythuredig blaenorol a materion ar gyfer gwella. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

Mae trefniadau cynllunio strategol yn gadarn, ond mae cyfleoedd i sicrhau bod cynlluniau ariannol yn fwy trylwyr a photensial i wella trefniadau adrodd IMTP hyd yn oed ymhellach

39 Cafodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru eto ar gyfer ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ac mae ganddo ddull cynllunio strategol cadarn a sefydledig.

40 Mae nifer o drefniadau corfforaethol cadarnhaol ar waith i gefnogi hyn megis ymgysylltu ag Aelodau'r Bwrdd, y defnydd o sesiynau datblygu'r Bwrdd a chynlluniau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer pob IMTP newydd. Ar ben hynny, mae'r model partner busnes mewn cyfarwyddiaethau'n rhoi arbenigedd mewn ystod o feysydd gan gynnwys cynllunio, cyllid a'r gweithlu.

41 Mae gwaith wedi parhau eleni i fireinio proses adrodd IMTP y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gellid gwneud rhagor o waith i gyfleu cerrig milltir yn well yn yr IMTP ac i fonitro cynnydd yn eu herbyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu ei strwythur er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn addas at y diben. Fodd bynnag, mae angen penodi Cyfarwyddwr Cyllid parhaol o hyd

- 42 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau gwaith i ddiweddarau strwythur y sefydliad a dylai hyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa well i wynebu heriau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd bod swydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn dal i gael ei llenwi ar sail dros dro ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ac mae camau wedi'u cymryd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsiant o ran aelodau annibynnol. Fodd bynnag, mae angen gwaith o hyd i reoli'r swm o wybodaeth gyda'r pwyllgor ansawdd, diogelwch a risg

- 43 Mae systemau gweinyddol ac ymddygiad y Bwrdd yn parhau i fod yn effeithiol ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trosiant o ran aelodau bwrdd annibynnol. Rydym wedi parhau i weld lefelau craffu a herio da ar lefel Bwrdd a Phwyllgor. Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) ar waith ac yn cael ei ddiweddarau'n chwarterol er mwyn adlewyrchu'r adolygiad cyfnodol o risgiau corfforaethol, cyfarwyddiaeth ac ardal.
- 44 Fodd bynnag, mae angen gwella'r broses o flaenoriaethu agenda'r pwyllgor ansawdd, diogelwch a risg. Mae cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2016 ynghylch datblygu blaengynlluniau gwaith, yn ogystal â sicrhau bod templedi pwyllgor priodol yn cael eu defnyddio.

Mae trefniadau rheoli risg yn gadarn ac yn darparu sail resymol i ddeall risgiau sefydliadol a strategol allweddol ac ymateb iddynt

- 45 Mae gan y Bwrdd Iechyd dull aeddfed o reoli risg. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio. Mae perchnogaeth glir o risg gyda phob risg wedi'i dyrannu i bwyllgor er mwyn sicrhau trefniadau goruchwyllo a chraffu effeithiol.

Er gwaethaf materion arweinyddiaeth weithredol, mae'n ymddangos bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn sefydlog, heb unrhyw newidiadau mawr o gymharu â'r llynedd. Mae paratodau ar waith i fodloni'r rheoliadau diogelu data cyffredinol newydd

- 46 Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth wedi parhau i fod yn gadarn gyda'r Bwrdd Iechyd yn gwneud paratodau ar gyfer y trefniadau diogelwch data cyffredinol newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi ei Swyddog Diogelu Data, sy'n gadarnhaol. Eleni, bu gwelliannau hefyd o ran gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth a bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn i raddau helaeth ac mae gwaith pwysig wedi'i wneud i atgyfnerthu atebolrwydd ar gyfer perfformiad yn y sefydliad

- 47 Mae trefniadau monitro perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol o ran monitro ac adrodd i'r Bwrdd a phwyllgorau, er bod y gwasanaeth archwilio mewnol wedi nodi rhai materion sy'n ymwneud â thechnoleg gwybodaeth wrth lunio'r adroddiadau perfformiad y bydd angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith rheoli perfformiad yn gadarnhaol ac mae'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau

- 48 Caiff yr ymarfer Menter Twyll Genedlaethol ei gynnal bob dwy flynedd, gan baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n adnodd effeithiol iawn ar gyfer canfod ac atal twyll a gordaliadau, a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.
- 49 Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan ddata i ymarfer paru data cyfredol y Fenter ym mis Hydref 2016. Cyhoeddwyd y canlyniadau i'r cyrff a gymerodd ran ym mis Ionawr 2017.
- 50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfranogwr gorfodol yn y Fenter. Ym mis Ionawr 2017, cafodd y Bwrdd Iechyd wybod am 5,263 o achosion o ddata cyfatebol drwy gymhwysiad gwe'r Fenter. Mae'r data cyfatebol hyn yn tynnu sylw at anghysondebau a all, pan gânt eu hadolygu, helpu i nodi twyll a gwallau. Er na fyddem yn disgwyl i'r sefydliad adolygu'r holl ddata cyfatebol, mae rhai o'r data cyfatebol wedi'u categorio fel 'achosion o ddata cyfatebol a argymhellir'. Ystyrir bod yr achosion hyn yn risg uchel ac felly argymhellir y dylie eu hadolygu'n gynnar. Cynhwysodd y Bwrdd Iechyd 311 o achosion o ddata cyfatebol a argymhellir. Mae cymhwysiad gwe'r Fenter, sy'n cofnodi canfyddiadau adolygiad y Bwrdd Iechyd o'i ddata cyfatebol, yn dangos mai dim ond naw o'r achosion hynny o ddata cyfatebol yr oedd y Bwrdd wedi'u hadolygu ar 20 Tachwedd 2017. Mae'n destun cryn bryder nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter fel rhan o'i drefniadau i atal a chanfod twyll. Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd roi data ar gyfer ymarfer nesaf y Fenter (NFI 2018-19) ym mis Hydref 2018. Mae'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y data cyfatebol a gaiff o'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu a, lle y bo angen, yr ymchwilir iddynt mewn modd amserol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd

- 50 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni argymhellion asesiad strwythuredig 2016. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu rhai agweddau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynlluniau arbedion, ond roedd angen

i gylch gorchwyl cyfarfodydd busnes clinigol a chorfforaethol gael ei adolygu o hyd gan swyddogion gweithredol arweiniol cyn eu rhoi ar waith.

- 51 Mae trefniadau ar waith i adolygu a monitro sicrwydd yn rheolaidd yn y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ac mae templedi pwyllgorau a blaengynlluniau gwaith wedi'u sefydlu'n llawn. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â nifer o'n hargymhellion o ran technoleg gwybodaeth, mae angen mynd i'r afael â nifer o argymhellion o hyd.
- 52 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion asesiad strwythuredig 2016, gwneuthum hefyd ystyried effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd o ran ymateb i argymhellion fy archwiliad. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd yn ailystyried ei drefniadau olrhain archwilio, a chafwyd bod y wybodaeth olrhain yn gyffredinol yn gyson â statws argymhellion asesiad strwythuredig 2017. Datblygiad cadarnhaol eleni yw system lle mae'n rhaid i swyddogion gweithredol arweiniol hysbysu'r pwyllgor archwilio am unrhyw argymhellion lefel uchel nad ydynt wedi'u cyflawni o hyd ar ôl chwe mis.

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi meysydd o gynnydd da, ond mae cyfleoedd o hyd i wneud defnydd gwell o adnoddau mewn nifer o feysydd

Mae angen camau gweithredu parhaus er mwyn mynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu, rhoi'r strategaeth iechyd ddigidol newydd ar waith a pharhau i ddatblygu trefniadau rheoli newid corfforaethol

- 53 Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi adolygu sut y rheolir nifer o ffactorau allweddol sy'n galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Mae'r gwaith hwn wedi nodi bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheoli newid da ar waith, ond mae lle i wella eu gwelededd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i wynebu rhai heriau sylweddol o ran y gweithlu, er enghraifft, mae gwariant ar staff asiantaeth meddygol yn gymharol uchel. Mae angen rhoi'r strategaeth iechyd ddigidol newydd ar waith er mwyn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol i dechnoleg gwybodaeth.
- Crynhoir fy nghanfyddiadau allweddol yn [Arddangosyn 1](#).

Arddangosyn 1: cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwiliadau mewn meysydd gwasanaeth penodol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol ynghylch y ffactorau sy'n galluogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau o'r asesiad strwythuredig.

Mater	Crynodeb o ganfyddiadau
Y gallu i reoli newid	Yn gyffredinol, mae'r trefniadau rheoli newid yn dda. Fodd bynnag, mae lle i wella gwelededd cynnydd yn erbyn y themâu trawsbynciol ac adolygu effeithiolrwydd y Swyddfa Rheoli Rhaglenni.
Cynllunio'r gweithlu	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â rhai heriau sylweddol o ran gweithlu'r Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, mae gwariant ar staff asiantaeth a lefelau salwch yn parhau i fod yn gymharol uchel.
TGCh a'r defnydd o dechnoleg	Mae datblygu'r Strategaeth lechyd Ddigidol yn gam cadarnhaol: mae angen gwneud gwaith nawr i drosi hyn yn amcanion allweddol i'w cyflawni, a sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu

Er bod gwasanaethau radioleg y Bwrdd lechyd yn cael eu rheoli'n dda ar lefel weithredol a bod ganddynt ffocws strategol, nid yw targedau perfformiad yn cael eu cyflawni ac mae risgiau i'r gwasanaethau a ddarperir nawr ac yn y dyfodol oherwydd galw cynyddol a phroblemau recriwtio

- 54 Mae gan y gwasanaeth radioleg yn y Bwrdd lechyd gynllun strategol a ategir gyda rhagolygon galw a gallu manwl. Mae gan y gwasanaeth strwythur rheoli clir â llinellau atebolrwydd clir. Mae'r Bwrdd lechyd yn adolygu perfformiad radioleg ar lefel gorfforaethol a rheoli, ond gallai ehangu'r defnydd o wybodaeth perfformiad cymharol y mae'n ei hadrodd.
- 55 Mae rôl gynyddol radioleg ym maes gofal clinigol wedi arwain at alw cynyddol am archwiliadau radiolegol, yn enwedig sganiau CT ac MRI. Yn ogystal â galw cynyddol, mae'r sganiau hefyd yn dod yn fwy cymhleth. Nodais nad oedd targedau amser aros bob amser yn cael eu cyflawni, a bod nifer o gleifion yn aros am fwy nag wyth wythnos ar gyfer archwiliadau radioleg. Er gwaethaf defnydd cynyddol o adroddiadau ar gontract allanol, nodais nad yw'r targedau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar archwiliadau bob amser yn cael eu cyflawni a bod y Bwrdd lechyd yn ei chael hi'n anodd gwneud y defnydd gorau o uwch-ymarferwyr radiograffeg i gefnogi trefniadau adrodd.
- 56 Mae proffil gweithlu radioleg y Bwrdd lechyd yn cymharu'n dda â gweddill Cymru, ac mae staff yn cynnal mwy o archwiliadau radioleg fesul radiograffydd cyfwerth ag amser cyflawn na'r cyfartaledd ledled Cymru. Fodd bynnag, mae anhawster wrth

recriwtio radiograffwyr i lenwi swyddi gwag yn cael effaith negyddol ar y gwasanaeth, ac roedd cyfyngiadau staffio yn rhwystro gallu'r Bwrdd Iechyd i hyfforddi staff a chynnal cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio opsiynau mewn perthynas â'r cymysgedd sgiliau er mwyn helpu i ddarparu'r gwasanaeth.

- 57 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod anawsterau gyda systemau TGCh radioleg yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar restr aros bapur er mwyn nodi'r cleifion sydd wedi bod yn aros hiraf.
- 58 O ran offer, mae nifer y sganwyr fesul pen o'r boblogaeth yn gymaradwy â Chymru ac roedd y Bwrdd Iechyd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'i offer CT ac MRI. Bydd newidiadau arfaethedig o ran capasiti radioleg diagnostig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynyddu capasiti offer, a dylai alluogi'r Bwrdd Iechyd i wella perfformiad yn erbyn targedau amseroedd aros.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i sefydlogi'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau. Fodd bynnag, mae rhagor o le i wella cywirdeb data, gallu rheoli gweithredol, trefniadau ar gyfer atgyfeirio'r cyhoedd a pherfformiad yn erbyn rhai targedau

- 59 Nod fy adolygiad yn 2017 oedd cadarnhau a yw'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau y gall cleifion gael gafael ar wasanaethau meddygon teulu effeithiol a chadarn y tu allan i oriau. Nodais fod gan y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau linellau atebolrwydd clir, gydag arweinyddiaeth glinigol well.
- 60 Nodais fod gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth gymharol dda o'r galw, a bod hyn yn cael ei fonitro'n gyson. Fodd bynnag, roedd gallu cyfyngedig ar lefel weithredol, sydd amlycaf yn ystod y sifftiau y tu allan i oriau. Er bod cymorth ar gael gan uwch aelodau o staff, mae'r strwythur rheoli darbodus yn golygu bod aelodau allweddol o staff yn parhau i fod ar ddyletswydd y tu allan i'w horiau gwaith. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn dibynnu ar ymrwymiad aelodau unigol o staff, ac er bod y gwasanaeth wedi gwella, nid yw'r model hwn yn gynaliadwy.
- 61 Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn cael problemau o ran cywirdeb data wrth ddefnyddio Adastra. Roedd y Bwrdd Iechyd yn ceisio datrys y sefyllfa, ond roedd problemau o hyd.
- 62 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ddylunio gwasanaeth mwy cynaliadwy drwy ei brosiect ailddylunio gwasanaeth ac wedi cynyddu cyfraddau llenwi sifftiau meddygon teulu drwy gyflwyno cynllun cymhellion llwythi sifftiau.
- 63 Rhwng 2009-10 a 2015-16, cynyddodd gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau 5% mewn termau real. Roedd y Bwrdd Iechyd yn un o dri Bwrdd Iechyd yng Nghymru sydd wedi cynyddu eu gwariant ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau mewn termau real. Yn 2015-16, cyfrannodd y Bwrdd Iechyd gymhorthdal o £617,000 at ei wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau. Roedd hyn yn gyfystyr â'r drydedd ganran uchaf o

gymhorthdal a dalwyd gan Fwrdd Iechyd fel canran o'i ddyraniad tybiannol, yn cyfateb i 25.2% ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.9%.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion gwaith archwilio blaenorol er bod angen cymryd camau pwysig o hyd mewn rhai meysydd allweddol

- 64 Yn ogystal ag adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed fel rhan o'm gwaith archwilio fel y trafodwyd **ym mharagraff 52**, nododd fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol o ran mynd i'r afael ag argymhellion, er bod rhai argymhellion TGCh heb eu cyflawni o hyd. Mae camau gweithredu yn erbyn argymhellion Asesiad Strwythuredig 2016 yn gadarnhaol. Fodd bynnag, wrth adolygu'r cynnydd mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud yn erbyn yr argymhellion roeddwn wedi'u gwneud mewn gwaith blaenorol ar apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, nodais nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwneud yr holl gynnydd a fwriadwyd wrth roi'r holl argymhellion ar waith. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro a gweithredu camau er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion sydd heb eu cyflawni yn llawn.
- 65 Ceir crynodeb o ganfyddiadau fy ngwaith ar apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: y cynnydd a wnaed wrth weithredu argymhellion archwilio o'm gwaith blaenorol ar apwyntiadau dilynol i gleifion allanol

Maes y gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad
Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, ond mae angen iddo wella'r ffordd y mae'n nodi risg glinigol, cyflymu gwelliannau i'r gwasanaeth a gwerthuso newidiadau i wasanaethau yn llawn. Mae gwelliannau i wasanaethau cleifion allanol yn parhau i fod yn ffocws i'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu lefel y gwaith craffu ar ôl-groniadau o apwyntiadau dilynol. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd Iechyd wedi targedu meysydd â'r lefel uchaf o ôl-groniadau o apwyntiadau dilynol, ni fu ffocws ar lefel cyflwr clinigol. Mewn cyfarwyddiaethau, mae ymwybyddiaeth o'r meysydd sy'n peri'r risg fwyaf o niwed na ellir ei wrydroi ac mae timau'n gweithio'n galed i reoli'r galw. • mae gwaith ôl-ddilysu data yn dal i gael ei wneud, ond dylid mynd i'r afael â hyn drwy system newydd i gleifion allanol sydd wrthi'n cael ei chyflwyno. • mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar oedi oherwydd ôl-groniad, ond mae angen iddo ganolbwyntio ar ddull system gyfan o foderneiddio gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae trefniadau comisiynu ar y cyd wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran gwasanaethau ambiwlans brys yng Nghymru; fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid er mwyn datblygu'r trefniadau.

66 Nododd fy adolygiad o drefniadau Cymru gyfan ar gyfer comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys fod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC) wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig, fel y gwaith o ddatblygu model CAREMORE². Fodd bynnag, nid yw strwythurau a rolau i sicrhau atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys yn glir. Nodais fod lle i egluro rolau EASC, Llywodraeth Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwllans mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaethau ambiwlans brys, cyllid a moderneiddio

² Mae model CAREMORE® yn fodel comisiynu 'a wnaed yng Nghymru'. Mae ei nod masnach cofrestredig yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar ran GIG Cymru.

gwasanaethau. Hefyd, er bod y broses o sefydlu EASC wedi cefnogi perchenogaeth gwasanaethau ambiwlans brys ar lefel Cymru gyfan, nododd fy nhîm fod angen i EASC wneud mwy i sicrhau bod y gwaith o drawsnewid y gwasanaethau hynny'n mynd rhagddo. Yn ogystal, nid yw strwythur yr is-grŵp, sy'n ategu EASC, yn ddigon clir ac nid oes diben penodol iddo, ac mae hyn yn effeithio ar bresenoldeb staff y bwrdd iechyd a gallu'r is-grwpiau i wneud cyfraniad ystyrlon.

- 67 Mae partneriaid yn cefnogi'r model comisiynu ond mae cyflymder y gwaith sy'n cael ei wneud gan fyrdau iechyd i ysgogi'r newidiadau angenrheidiol i alluogi'r model i weithio fel y bwriadwyd yn amrywio, ac nid yw'r model ei hun yn ystyried gweithgarwch rhanbarthol na gweithgarwch trawsffiniol. Nododd fy ngwaith fod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST) a byrdau iechyd yn barod i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau ambiwlans, ond mae lefel perchenogaeth perfformiad ambiwlansys brys a'r gwaith o foderneiddio'r llwybr yn amrywio rhwng byrdau iechyd, gyda'r prif ffocws ar gamau diweddarach y llwybr ambiwlans, megis trosglwyddiadau gan ambiwlansys. Nodais fod WAST yn ymateb yn briodol i gytundebau a bennwyd gan EASC. Fodd bynnag, mae cydymffurfiaeth byrdau iechyd â'r gofynion a nodir yn CAREMORE®, a'u dealltwriaeth ohonynt yn amrywio.
- 68 Nododd fy ngwaith fod trefniadau comisiynu yn ategu rhai gwelliannau i wasanaethau ambiwlans brys. Mae'r broses o gyflwyno'r model ymateb clinigol newydd yn helpu partneriaid i gyflawni targedau perfformiad Llywodraeth Cymru, ac mae'n bosibl y gwelir rhagor o welliannau mewn perfformiad yn sgil mentrau eraill y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Mae newidiadau arfaethedig i wasanaethau a'r gwaith o fonitro perfformiad partneriaid yn cael ei gysoni fwyfwy â'r Llwybr Gofal Cleifion Ambiwllans (y cyfeirir ato fel y model pum cam). Fodd bynnag, mae angen mwy o gysondeb rhwng byrdau iechyd ac mae'n rhy gynnar i ddweud a yw hyn yn cael effaith. Mae cyfres o fesurau llawer gwell ac ehangach sy'n canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad drwy'r Dangosyddion Ansawdd Ambiwllans. Fodd bynnag, nid yw partneriaid yn gwneud digon eto i ddeall canlyniadau a phrofiadau cleifion sy'n cael gofal ambiwlans brys yn llawn.

Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

- 69 Nododd fy adolygiad o drefniadau cydweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol gyda Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus fod cydweithredu effeithiol mewn perthynas â gwaith gwella ym maes iechyd yn dibynnu ar arweinyddiaeth gydsyniol, ac nid yw hyn bob amser yn amlwg. Yn y system iechyd cyhoeddus yn gyffredinol, mae ystod eang o bobl a sefydliadau yn cyfrannu at ddiogelu a gwella iechyd a lles, a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Nid oes yr un sefydliad yn gwbl gyfrifol am sicrhau gwelliannau i iechyd a lles y boblogaeth, ac mae angen cydweithredu effeithiol er mwyn gwneud hynny.

- 70 Er nad yw efallai'n ddymunol nodi un arweinydd system, mae angen mwy o eglurder ynghylch rolau priodol y rhanddeiliaid gwahanol yn y system. Nododd fy ngwaith fod diffyg deialog ystyrion rhwng Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth), timau iechyd cyhoeddus lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus ynghylch rolau, cyfrifoldebau a fframwaith cytûn ynghylch y math o waith a gyflawnir orau ar y cyd.
- 71 Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir i dimau iechyd cyhoeddus lleol yn rhoi gwerth am arian. Ni chynhelir unrhyw gyfarfodydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i drafod sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio i wella iechyd a lles a ph'un a ydynt yn cyflawni'r budd a fwriadwyd. Nododd fy ngwaith hefyd nad oes dulliau cadarn o ddyrannu adnoddau i dimau iechyd cyhoeddus lleol na newid yr adnoddau hynny. Yn hytrach, cynhelir trafodaethau ad hoc pan ddaw swyddi'n wag.
- 72 Nododd fy ngwaith fod trefniadau ar waith i gefnogi'r gwaith o gofrestru staff proffesiynol a leolir mewn timau lleol, ond mae angen mwy o eglurder ar y ffordd y defnyddir hyn i ddangos cymhwysedd proffesiynol a dilyniant gyrfa. Mae trefniadau newydd hefyd yn helpu i atgyfnerthu prosesau arfarnu a chynllunio datblygiad personol, ond mae angen gwneud mwy i asesu anghenion datblygu cyfunol timau iechyd cyhoeddus lleol.
- 73 Nid yw systemau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid oes unrhyw ddull gweithredu safonol ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn y mae chwaraewyr gwahanol yn ei wneud ar lefel genedlaethol a lleol. Nododd fy ngwaith hefyd fod diffyg trefniadau ar gyfer cydgysylltu gwaith a ddatblygir neu a gyflwynir yn lleol neu'n genedlaethol, a chyfleu gwybodaeth i'r un partneriaid a rennir.
- 74 Rwyf wedi nodi ymateb cyfunol a chydweithredol rheolwyr yr Ymddiriedolaeth, Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru i'm canfyddiadau. Rwy'n bwriadu gwneud rhagor o waith yn 2018 er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd uchod.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 3: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2017.

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	31 Mai 2017
Barn ar y Datganiadau Ariannol	8 Mehefin 2017
Llythyr Rheoli 2016-17	31 Gorffennaf 2017
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Gwasanaethau Radioleg	Mawrth 2017
Comisiynu Gwasanaethau Ambiwylans Brys	Ebrill 2017
Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau	Awst 2017
Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol	Hydref 2017
Asesiad Strwythuredig 2017	Rhagfyr 2017
Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol	Hydref 2017
Adroddiadau eraill	
Cynllun Archwilio 2017	Mawrth 2017

Arddangosyn 4: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo

Hefyd, mae nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl isod, gyda'r dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Adolygiad o'r Broses o Gynllunio i Ryddhau Cleifion	Ionawr 2018
Adolygiad o Ofal Sylfaenol	Mehefin 2018
Meddygon Locwm	Mawrth 2018

Atodiad 2

Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2017 ffi archwilio arfaethedig o £412,993 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Atodiad 3

Risgiau archwilio sylweddol

Arddangosyn 5: risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2017 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2017. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol.	Gwaith wedi'i gwblhau a dim materion yn codi.
Mae risg o gamdatganiadau perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod referniw ac, fel y cyfryw, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26-27].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• adolygu a phrofi ffrydiau ariannu ac incwm a gafwyd gan y Bwrdd Iechyd; ac• ystyried a yw'r holl ffrydiau ariannu ac incwm wedi'u nodi.	Gwaith wedi'i gwblhau a dim materion yn codi.

Risg archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Mae risg y gallai'r Bwrdd Iechyd fethu bodloni ei ddyraniad adnoddau referniw blynyddol a'i ddyraniad adnoddau cyfalaf blynyddol er gwaethaf y sefyllfa 9 mis sy'n dangos gwaged fach y flwyddyn hyd yn hyn o £20,000. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ragweld y caiff y gyllideb ei mantoli ar ddiwedd y flwyddyn. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, caf ddewis gosod adroddiad sylweddol esboniadol ar y datganiadau ariannol.</p> <p>Gallai'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd gynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i gyflawni'r terfynau adnoddau referniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2014-15 i 2016-17.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar brofi rhannau o'r datganiadau ariannol a allai fod yn unochrog.</p> <p>Bydd fy nhîm hefyd yn adolygu, gyda rheolwyr, berfformiad y Bwrdd Iechyd ac effaith yr holl ganfyddiadau archwilio yn erbyn y terfynau adnoddau cyfalaf a referniw ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2014-15 i 2016-17.</p>	<p>Ni nododd fy ngwaith archwilio ar amcangyfrifon a meysydd goddrychol eraill megis darpariaethau unrhyw addasiadau perthnasol i ganlyniad y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn.</p> <p>Daeth fy staff i'r casgliad, wedi ystyried gwallau dibwys, i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer terfynau adnoddau dros y cyfnod tair blynedd 2014-15 i 2016-17.</p>
<p>Mae risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn llwyddo i roi cyfrif cywir am hawliadau cyfreithiol parhaus rhwng darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r sefyllfa a'r cyngor cyfreithiol diweddaraf ac yn trafod y driniaeth gyfrifyddu a'r modd y cyflwynir y mater hwn yn y datganiadau ariannol.</p>	<p>Gwaith wedi'i gwblhau a dim materion yn codi.</p>
<p>Mae'r amserlen ar gyfer llunio ac ardystio'r cyfrifon blynyddol yn dal i fod yn heriol. Bu nifer o newidiadau hefyd i'r tîm ariannol yn ystod 2016-17. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau trefniadau priodol ar gyfer paratoi'r cyfrifon a darparu papurau gwaith i'w harchwilio yn amserol.</p>	<p>Mae fy nhîm archwilio wedi bod yn gweithio gyda rheolwyr i wella papurau gwaith ategol, a symleiddio prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon.</p>	<p>Gwnaed cynnydd sylweddol ar y papurau gwaith yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid aethpwyd i'r afael yn llawn â'r holl faterion a adroddwyd gennym yn Llythyr Rheoli 2015-16 ac mae angen i'r rheolwyr wneud rhagor o waith ar gyfer 2017-18.</p>

Risg archwilio sylweddol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Yn 2015-16, cyflwynwyd sylwadau gennym i'r rheolwyr ar sawl maes yn ystod ein gwaith archwilio, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Triniaeth Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol • Datgeliadau'r adroddiad ar gydnabyddiaeth • Cydnabod Darpariaethau a Rhwymedigaethau Digwyddiadol • Cymeradwyaeth weinidogol o gontractau > £1m 	<p>Bydd fy nhîm yn gwneud gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaed yn ein Llythyr Rheoli Cyfrifon Ariannol a'r addasiadau sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol yn 2015-16 fel rhan o'n gwaith archwilio yn 2016-17.</p>	<p>Gwaith wedi'i gwblhau a gellir gwneud rhagor o welliannau. Gwnaeth fy nhîm nodi un contract gyda darparwr gofal iechyd preifat a oedd yn werth tua £3 miliwn, ond na chafwyd cymeradwyaeth weinidogol ar ei gyfer. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth glir bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r achos busnes a chymeradwyo'r cyllid.</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Text phone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru